



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Hysbysiad Preifatrwydd Prifysgol Bangor:

Profion Asymptomatig Covid-19

Beth yw pwrpas casglu gwybodaeth bersonol?

Fel rhan o wasanaeth profion asymptomatig Covid-19 Prifysgol Bangor, rydym yn casglu gwybodaeth bersonol i helpu i reoli a deall lledaeniad COVID-19 yn ein cymuned er mwyn gallu anfon negeseuon e-bost dilynol i roi cyngor i chi ar yr hyn sydd angen i chi ei wneud ar ôl y prawf; a darparu cefnogaeth pe bai'r prawf yn bositif.

Beth ydym yn ei gasglu?

Ar gyfer prawf: rhif eich cerdyn myfyriwr neu eich rhif staff Prifysgol Bangor (a fydd yn gysylltiedig â'ch gwybodaeth bersonol), y cod bar o'ch pecyn profi, a chanlyniad eich prawf.

Beth yw'r sail gyfreithlon sydd gennym i gasglu'r wybodaeth hon?

Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y sail gyfreithlon sydd gennym i brosesu'r wybodaeth hon yw bod gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny (Erthygl 6(1)(c) GDPR).

Dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, etc., mae gan y brifysgol gyfrifoldeb i ddiogelu staff, myfyrwyr a'r gymuned. Rhaid i ni leihau i'r eithaf y risg y bydd Covid-19 yn lledaenu trwy ddarparu cyngor iechyd cyhoeddus priodol a thrwy gael gwell dealltwriaeth o'r achosion Covid-19 yng nghymuned y brifysgol.

Gan y byddwn yn prosesu gwybodaeth categori arbennig (mae canlyniadau profion yn ymwneud â'ch iechyd), rydym wedi nodi 'budd cyhoeddus sylweddol' fel yr amod Erthygl 9 priodol (GDPR Erthygl 9(2)(g)), ynghyd â 'dibenion statudol' fel amod perthnasol Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018 Atodlen 1, Para. 6).

Pwy fydd yn gallu gweld y wybodaeth hon?

Bydd staff cofrestru yn sganio eich cerdyn a chod bar staff Prifysgol Bangor wrth i chi gyrraedd, a bydd prosesydd y prawf yn sganio codau bar unrhyw ganlyniadau positif neu amhendant. Dim ond staff yn nhîm cymorth Covid-19 fydd yn gallu gweld canlyniadau sy'n gysylltiedig â myfyriwr unigol.

Sylwer: Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (sy'n rhedeg y rhaglen brofion) yn gallu gweld y wybodaeth bersonol rydych yn ei rhannu ar wahân gyda'r porth gwe Profion Asymptomatig ar-lein a'r canlyniad prawf dilynol. Ni fydd y brifysgol yn gallu gweld y data hwn.

A fyddwn yn rhannu'r data gydag unrhyw drydydd parti?

Os cewch ganlyniad prawf positif, efallai y gofynnir i ni rannu eich manylion cyswllt â'r tîm profi, olrhain a diogelu lleol (sy'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol) er mwyn hwyluso'r broses profi, olrhain a diogelu.

Am ba hyd byddwn yn cadw'r data?

Bydd cofnod o ganlyniad eich prawf positif yn cael ei gadw fel rhan o system fonitro Covid-19 y brifysgol trwy gydol y pandemig. Gellir rhannu data dienw hefyd fel rhan o unrhyw astudiaeth o achosion.

Eich hawliau diogelu data

Dan ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych amryw o hawliau, gan gynnwys:

Hawl mynediad - mae gennych hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol.

Hawl i gywiro - mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol rydych yn meddwl sy'n anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth rydych yn meddwl sy'n anghyflawn.

Hawl i gyfyngu ar brosesu - mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol dan rai amgylchiadau.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'n defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r brifysgol yn info-compliance@bangor.ac.uk

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y defnyddiwyd eich data, gallwch wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.